**Gwneud Synnwyr o'r Jargon: Ionawr 2025**

Rydyn ni gyd yn siarad mewn jargon weithiau, yn dydyn? Ond ydyn ni bob tro'n gwybod beth rydyn ni'n feddwl?

Efallai y bydd yr esboniadau hyn yn eich helpu i ddeall rhai o'r ymadroddion y dewch ar eu traws.

Trefnwyd y set gyntaf o acronymau mewn grwpiau i ddangos weithiau beth yw'r cysylltiad rhwng cyrff gwahanol â'i gilydd.

Mae'r adran "jargon" yn nhrefn yr wyddor.

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'I bwriedir ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

Lyn Cadwallader BA(Hons),PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive

www.onevoicewales.org.uk

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| **Acronym** | **Sef…** | **Beth yw hwnnw** | **Gwefan** |
| ULlC | Un Llais Cymru | Y corff cynrychioliadol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau yn aelodau o Un Llais Cymru.<br><br>Mae Cyngor Cymuned neu Dref fel Cyngor Plwyf yn Lloegr. Weithiau maen nhw'n cael eu galw hefyd yn Gynghorau Lleol. | Un Llais Cymru |
| Y Clerc | Clerc y Cyngor | Y Clerc yw prif swyddog Cyngor Cymuned neu Dref. Teitl ffurfiol y Clerc yw Swyddog Priodol.<br><br>Mae'r Clerc yn debyg i Ysgrifennydd Cwmni. Mae Cynghorwyr ("Aelodau") yn debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr. | |
| SAC | Swyddog Ariannol Cyfrifol | Mae'r Cyngor yn gorfod penodi Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) i reoli materion ariannol y Cyngor; yn aml y SAC yw'r Clerc hefyd, yn enwedig mewn cynghorau llai. | |
| Cadeirydd | Y person sy'n cadeirio'r Cyngor. | Mae'n rhaid i'r Cyngor ethol rhywun i gyflawni'r rôl hon (ethol, nid penodi.)<br><br>Nhw yw pennaeth dinesig y Cyngor, ond mae ganddynt hefyd rai cyfrifoldebau penodol yn ymwneud â llywodraethiant. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| WLGA | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Mae'r WLGA yn cynrychioli pob un o'r 22 prif awdurdod lleol yng Nghymru, h.y. "Cynghorau Sir" (e.e. Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam), y 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol. | CILC |
| LlC | Llywodraeth Cymru | Nhw yw cangen wleidyddol, weithredol Y Senedd. Nhw yw Cabinet Cymru. | Llywodraeth Cymru |
| Y Senedd | Y Senedd | Senedd Cymru. Mae'n wahanol i Lywodraeth Cymru yn yr un ffordd ag y mae'r Senedd a'r Cabinet yn wahanol i'w gilydd yn San Steffan. Mae ei rôl yn cynnwys cwestiynu a herio Llywodraeth Cymru. Arferai gael ei alw'n Gynulliad Cenedlaethol Cymru. | Senedd |
| AoS | Aelod o'r Senedd | Gelwir holl Aelodau'r Senedd yn AoS. Hyd yn oed Weinidogion Llywodraeth Cymru yn y Cabinet. Yn union fel y mae'r Prif Weinidog yn AS yn San Steffan hefyd, er enghraifft. | Dewch o hyd i Aelod o'r Senedd. |
| NALC | Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol | NALC yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau 10,000 o gynghorau lleol (plwyf a thref) yn Lloegr. | NALC |
| OGCC | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Enw arall arno yw "yr Ombwdsmon," a rôl OGCC yw ymchwilio cwynion fod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, oherwydd camweinyddu. Mae hyn yn cynnwys Cynghorau Cymuned a Thref. Mae OGCC hefyd yn | OGCC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | edrych ar gwynion fod cynghorwyr yng Nghymru (gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref) wedi torri amodau eu Cod Ymddygiad. | |
| Pwyllgor Safonau | Pwyllgor Safonau a Moeseg | Mae hwn yn bwyllgor pwysig ar brif gynghorau (Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol). Mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys gwrando a phenderfynu ar gwynion am gamymddygiad gan Aelodau neu adroddiad gan y Swyddog Monitro, boed wedi'u cyfeirio atynt gan yr Ombwdsmon ai peidio. Gall hyn gynnwys cwynion am Gynghorwyr Cymuned a Thref.<br><br>Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor fel arfer. | Enghraifft o Bwyllgor Safonau. |
| SM | Swyddog Monitro | Swyddog Monitro yw'r swyddog statudol sy'n gyfrifol am lywodraethiant cyfreithiol awdurdod lleol, mewn ffordd ddigon tebyg i'r modd y mae swyddog adran 151 yn gyfrifol am gyllid cyngor. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod cynghorau yn cyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn gweithredu eu codau ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio ac adrodd am unrhyw beth a wna'r awdurdod y mae iddo'r potensial i fod yn weithred anghyfreithlon neu unrhyw weithred allai gael ei hystyried yn gamweinyddu. | Ceir disgrifiad o'r rhan fwyaf o'r rôl yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. |
| IRPW | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu lefel taliadau i aelodau etholedig cynghorau, (gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref) awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Cyflwynir y manylion bob blwyddyn mewn | IRPW |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adroddiad blynyddol. 2025 – 26 yw'r adroddiad drafft terfynol cyn i swyddogaethau'r Panel gael eu trosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) o 1 Ebrill 2025. | |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | WCVA yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. | WCVA |
| SLCC | Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | Y corff proffesiynol ar gyfer clercod cynghorau lleol ac uwch weithwyr cynghorau lleol. | SLCC |

Allwch chi feddwl am unrhyw rai i'w hychwanegu at y rhestr hon?

| **Jargon** | |
|---|---|
| **Yr hyn rydyn ni'n ei ddweud** | **Yr hyn rydyn ni'n ei olygu …** |
| "Y Sector" | Yr hyn a olygwn yw'r "sector Cynghorau Cymuned a Thref." Hynny yw, pob Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru, ac nid y rhai sy'n aelodau o Un Llais Cymru yn unig. |
| Aelodau | Ystyr hyn yw Cynghorwyr. Mae deddfwriaeth a dogfennau swyddogol eraill yn defnyddio'r term "Aelodau." |

| | |
|---|---|
| | Weithiau gallech weld y byrfodd Cyng. ar gyfer Cynghorydd. |
| Praesept | Y swm y mae Cyngor yn ei godi i ddarparu ei wasanaethau. Mae'n cael ei ychwanegu at filiau Treth y Cyngor ar gyfer yr ardal y mae Cynghorau Cymuned neu Dref yn ei gwasanaethu. |
| Archwilio Cymru | Corff allanol, annibynnol sy'n archwilio Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Maen nhw'n gwirio ein cyfrifon a'n trefniadau llywodraethu. Mae Cynghorau yn penodi eu harchwilydd mewnol eu hunain hefyd, sy'n annibynnol o'r Cyngor. |
| Cyfarfodydd sawl-lleoliad neu gyfarfodydd hybrid. | Cynhelir rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae rhai'n cael eu cynnal o bell. Mae rhai'n defnyddio'r ddwy drefn. Dyna ystyr Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Os yw Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol ar gyfer cyfarfod Cyngor neu gyfarfod pwyllgor/is-bwyllgor, gall wneud hynny wyneb yn wyneb, ond mae'n rhaid darparu hefyd ar gyfer pobl sydd eisiau cymryd rhan o bell, megis trwy Zoom neu Teams neu trwy gyfarfod ffôn. |
| Dyletswydd Statudol | Rhywbeth y mae rheidrwydd cyfreithiol i'w wneud. Mae'n rhaid i Gynghorau gyflawni'r gofynion hyn, all gael eu cyflwyno mewn deddf seneddol, Deddf neu Fesur Y Senedd neu reoliadau.. |
| Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol | Rheolau sy'n rheoli sut mae Cyngor yn gweithredu. Mae Rheolau Sefydlog yn ymwneud yn bennaf â sut i gynnal cyfarfodydd ac ati. Mae Rheoliadau Ariannol yn ymwneud â materion ariannol. |

Yn olaf, beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cyngor Cymuned a Chyngor Tref? Mewn gwirionedd, fawr ddim. Mae Cynghorau Tref yn tueddu bod yn y canolfannau poblogaeth mwy, hunangynhaliol. Y tueddiad yw bod ganddynt Faer yn hytrach na Chadeirydd. Heblaw am hynny nid oes fawr ddim gwahaniaeth. Mae'r Maer neu'r Cadeirydd yn cyflawni'r un rôl.

Mae gan rai Cynghorau Arweinydd hefyd, sef pennaeth gwleidyddol y Cyngor.

Ceir rhestr dermau gynhwysfawr ar ddiwedd y ddogfen hon.